# Cynnig i Newid Ystod Oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11

## Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths,** Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

**E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk**

**Ffôn: 01267 246618**


## Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae’r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae’r strategaeth yn adlewyrchu’r weledigaeth a’r polisïau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy’n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella’n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae’n ofynnol ein bod yn manteisio i’r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i’r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i’w wneud i’r broses ddysgu ac i lesiant plant a’u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o arweinwyr addysg ac athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae’n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â’u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y mannau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy’n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb. Bwriedir i’r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro’r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo’r broses ymgynghori.



**Gareth Morgans**
Cyfarwyddwr Addysg a Phlant

## Rhestr Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **ND** | Nifer derbyn |
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **CC** | Cynradd Cymunedol |
| **DFf** | Dwy Ffrwd |
| **CS** | Cyfrwng Saesneg |
| **Estyn** | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **CALL** | Cyfwerth ag Amser Llawn |
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **MCYC** | Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru |
| **RhMA** | Rhaglen Moderneiddio Addysg |
| **NOR** | Nifer y disgyblion ar y gofrestr |
| **CYBLD** | Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| **RhA** | Rhan-Amser |
| **CSCA** | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **CC** | Cyfrwng Cymraeg |

**Cynnwys**

Cyflwyniad ........................................................................ 1

Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig ................................................... 2

Y Rhesymeg dros Newid ......................................................... 5

Y Cynnig ................................................................................. 7

Y Broses Ymgynghori ............................................................. 18

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ......................... 22

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg .......................... 23

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..................... 24

# Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn Ysgol Swiss Valley. Mae'r cynigion ynghylch newid a gaiff eu nodi yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r amcan tymor hir hwnnw.

Mae'r ddogfen hon yn ceisio symbylu'r broses ymgynghori drwy egluro'r opsiwn a ffefrir gan yr Awdurdod ar gyfer darparu addysg gynradd i ddisgyblion **Ysgol Swiss Valley** yn y dyfodol. Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau neu gynigion eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru  a bydd yn cynnwys partïon penodol sydd â diddordeb.

Prif ddiben y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu sylwadau'r partïon penodol sydd â diddordeb.

# Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig

| | | |
|---|---|---|
| **Enw'r Ysgol** | | Ysgol Gynradd Swiss Valley |
| **Lleoliad yr Ysgol** | | SA14 8DS |
| **Sir** | | Sir Gaerfyrddin |
| **Ystod Oedran** | | 4-11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cymunedol |
| **Categori Cyfrwng Iaith (CYBLD)** | | Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020)** | **Meithrin** | 14 |
| | **Derbyn – B.6** | 222 |
| | **Cyfanswm** | **236** |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol** | **Ionawr 2019** | 20 + 212 = **232** |
| | **Ionawr 2018** | 19 + 217 = **236** |
| | **Ionawr 2017** | 16 + 223 = **239** |
| | **Ionawr 2016** | 22 + 216 = **238** |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Ionawr 2021** | 240 |
| | **Ionawr 2022** | 246 |
| | **Ionawr 2023** | 241 |
| | **Ionawr 2024** | 238 |
| | **Ionawr 2025** | 242 |
| **Nifer y lleoedd (yn cynnwys meithrinfa)** | | 243 |
| **Cost fesul disgybl (2020/21)** | | £3,573 |
| **Cyllideb yr Ysgol** | | £870K |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | | Estyn |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | | B |

## Cefndir

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a bodloni dyheadau Llywodraeth Cymru fel y'u pennir yn eu dogfennau strategol e.e. *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cymwys am Oes : Cynllun gwella addysg.*

Mae darparu addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn allweddol er mwyn gwireddu'r uchelgais hon. Mae profiadau plentyndod yn chwarae rhan bwysig wrth lunio ein dyfodol ac maent yn hanfodol er mwyn cael siawns o fyw bywyd iach, ffyniannus a boddhaus. Nod Cyngor Sir Caerfyrddin yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael gafael ar yr un cymorth o ansawdd uchel mewn ysgolion.

Mae'r Dull Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cydnabod y gall plant o gefndiroedd difreintiedig fod gymaint â blwyddyn y tu ôl i'w cyfoedion erbyn iddynt fod yn dair oed. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn ehangu erbyn i blant fynd i'r ysgol. Felly, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw unioni'r anghydbwysedd hwn a chau'r bwlch trwy ddarparu mynediad i ddarpariaeth plentyndod cynnar o safon.

Mae Ysgol Swiss Valley wedi'i chategoreiddio fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg ar gyfer plant 4-11 oed yn ardal Llanelli. Mae Ysgol Swiss Valley wedi bod yn cynnal cynllun peilot i fod yn ysgol 3-11 ers 2013 a gychwynnwyd yn rhan o gynllun gan Lywodraeth Cymru i roi hyblygrwydd a dewis i rieni o ran darpariaeth feithrin. Fodd bynnag, gan fod yr ysgol yn cael ei hysbysebu'n swyddogol ar hyn o bryd fel ysgol 4-11 oed, mae'r rhieni'n gymysglyd ynghylch pa ddarpariaeth feithrin a gynigir gan yr ysgol neu nid ydynt yn ymwybodol o'r ddarpariaeth.

## Y sefyllfa bresennol yn Sir Gaerfyrddin

Cynigir darpariaeth ddynodedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn ***40 ysgol*** ledled y Sir. Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin gyfanswm o 96 o ysgolion cynradd.

| **Ysgol** | **Ystod Oedran** |
|---|---|
| Y Betws | 3-11 oed |
| Bigyn | 3-11 oed |
| Bro Brynach | 3-11 oed |
| Y Bryn | 3-11 oed |
| Bryn Teg | 3-11 oed |
| Brynaman | 3-11 oed |
| Brynsierfel | 3-11 oed |
| Porth Tywyn | 3-11 oed |
| Y Bynea | 3-11 oed |
| Cross Hands | 3-11 oed |
| Dafen | 3-11 oed |
| Dewi Sant | 3-11 oed |

| | |
|---|---|
| Gymraeg Ffwrnes | 3-11 oed |
| Griffith Jones | 3-11 oed |
| Gwenllian | 3-11 oed |
| Halfway | 3-11 oed |
| Tre Ioan | 3-11 oed |
| Llandeilo | 3-11 oed |
| Llandybïe | 3-11 oed |
| Llan-gain | 3-11 oed |
| Llangennech | 3-11 oed |
| Llangynnwr | 3-11 oed |
| Maes y Morfa | 3-11 oed |
| Model | 3-11 oed |
| Myrddin | 3-11 oed |
| Nantgaredig | 3-11 oed |
| Parc y Tywyn | 3-11 oed |
| Pen-bre | 3-11 oed |
| Pen Rhos | 3-11 oed |
| Pen-y-gaer | 3-11 oed |
| Y Pwll | 3-11 oed |
| Parc Waundew | 3-11 oed |
| Santes Fair, Llanelli | 3-11 oed |
| Santes Fair, Caerfyrddin | 3-11 oed |
| Stebonheath | 3-11 oed |
| Teilo Sant | 3-11 oed |
| Trimsaran | 3-11 oed |
| Ysgol Y Bedol | 3-11 oed |
| Y Castell | 3-11 oed |
| Y Dderwen | 3-11 oed |

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley yn ffurfiol o 4-11 i 3-11, er mwyn medru ymgorffori'r ddarpariaeth feithrin yn yr ysgol.


Mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor Sir i edrych ar nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n ofynnol iddo sicrhau eu bod yn y man iawn a bod ganddynt y cyfleusterau iawn ar gyfer y dyfodol a'r adnoddau iawn i ddarparu addysg a dysgu i ddisgyblion. Credwn bod ein disgyblion a'n staff yn haeddu hyn.

Mae'r newidiadau yn y cwricwlwm ac yn y modd y caiff plant eu haddysgu yn y dyfodol hefyd yn golygu bod rhaid i ni ystyried p'un a oes modd adolygu ystod oedran ysgolion y Sir er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn y dyfodol.

## Y Rhesymeg dros Newid

Paratowyd y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o 4-11 i 3-11 mewn ymateb i adborth a gafwyd gan yr ysgol a rhieni disgyblion yn yr ysgol, ynghylch y cynllun peilot presennol o fynd yn ysgol 3-11. Ar hyn o bryd, nid yw rhieni'n ymwybodol o'r ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei chynnig ar gyfer disgyblion meithrin ac mae hyn yn peri dryswch iddynt, oherwydd bod yr ysgol yn cael ei hysbysebu'n swyddogol fel ysgol 4-11. Nod y cynnig yw darparu darpariaeth gyfartal yn ardal Llanelli, gan gysoni Ysgol Swiss Valley ag ysgolion cyfagos sydd eisoes yn ysgolion 3-11 oed. Mae canlyniadau'r cynllun peilot wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r Awdurdod Lleol bellach yn dymuno bwrw ymlaen â chynnig i newid ystod oedran yr ysgol i 3-11 trwy ymgynghoriad ffurfiol.

Mae Niferoedd y Disgyblion Meithrin wedi aros yn weddol gyson ers 2016:



## Gwybodaeth am Leoedd i Ddisgyblion

| | Ionawr 2020 **(Gwir Nifer)** | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Ionawr 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amcanestyniadau o Niferoedd y Disgyblion | 14 + 222 = **236** | 240 | 246 | 241 | 238 | 242 |
| Nifer y Lleoedd (Meithrin + Cynradd) | 30 + 213 = **243** | 30 + 213 | 30 + 213 | 30 + 213 | 30 + 213 | 30 + 213 |
| Lleoedd gwag | 7 | 3 | -3 | 2 | 5 | 1 |

# Y Cynnig

Newid ystod oedran Ysgol Swiss Valley o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 o 1 Medi, 2021.

## Manteision ac Anfanteision y Cynnig

**Manteision**

- Pontio di-dor o'r feithrinfa i'r ysgol gynradd.
- Bydd hyn yn cael gwared ar y dryswch ymhlith rhieni ynghylch pa ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgol, gan y bydd yr ysgol yn cael ei hysbysebu'n swyddogol fel ysgol 3-11.
- Pontio graddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau yn yr ysgol, gan ddechrau gyda hanner diwrnodau a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn.
- Cyfle i gael gwaith yn Ysgol Swiss Valley.
- Mae'r broses o safoni darpariaeth feithrin yn ardal Llanelli megis y Bryn, Dafen, Llangennech a Dewi Sant eisoes yn cynnig darpariaeth 3-11.
- Lleihau'r bwlch yng nghyrhaeddiad plant 3 oed o gefndiroedd difreintiedig.

**Anfanteision**

- Lleihau'r galw am leoedd yn y meithrinfeydd preifat a chyda'r gwarchodwyr plant sy'n cynnig darpariaeth ar hyn o bryd.
- Diweithdra oherwydd diffyg galw yn y meithrinfeydd preifat a chyda'r gwarchodwyr plant.

## Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

| Risg | | Y Mesur i Liniaru'r Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig | Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 |
| 2. | Integreiddio disgyblion i'r ysgol | Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r disgyblion i sicrhau eu bod yn pontio ac yn integreiddio'n hwylus i'r ysgol. |
| 3. | Yr effaith ar yr economi leol trwy fod darparwyr meithrinfeydd preifat yn colli niferoedd gan arwain at golli swyddi posibl. | Ymgynghori â darparwyr preifat yn agored ac yn onest ynglŷn â'r cynnig. |

## Opsiynau Eraill a ystyriwyd

| Y Sefyllfa Bresennol – dim newid i Ysgol Swiss Valley | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| Dim newid i'r rhanddeiliaid | Ni all y cynllun peilot barhau am gyfnod amhenodol, felly bydd yr Ysgol yn aros fel ysgol 4-11 heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed. |
| Ni fydd angen proses statudol | Bydd y dryswch ymhlith rhieni ynghylch pa ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei chynnig yn parhau |

| Cynnig Darpariaeth Feithrin mewn Ysgolion Cyfagos | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| Dim newid i randdeiliaid yn Ysgol Swiss Valley | Angen proses statudol ar gyfer ysgolion cyfagos. |
| Bydd darpariaeth i blant 3 oed yn cael ei chynnig mewn ysgolion cyfagos. | Ni all y cynllun peilot barhau am gyfnod amhenodol, felly bydd yr Ysgol yn aros fel ysgol 4-11 heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed. |
| | Bydd y dryswch ymhlith rhieni ynghylch pa ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei chynnig yn parhau |

| Cynnig Darpariaeth mewn Meithrinfeydd Preifat | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| Mwy o waith i weithwyr gofal plant preifat. | Byddai'n ddrud i rieni wrth iddynt dalu am ddarpariaeth feithrin breifat ac felly ni fyddai'n mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant 3 oed o gefndiroedd difreintiedig. |
| Dim newid i'r rhanddeiliaid | Bydd y dryswch ymhlith rhieni ynghylch pa ddarpariaeth y mae'r ysgol yn ei chynnig yn parhau |
| Ni fydd angen proses statudol | Ni all y cynllun peilot barhau am gyfnod amhenodol, felly bydd yr Ysgol yn aros fel ysgol 4-11 heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer plant 3 oed |

## Staffio

Bydd y trefniadau staffio yn aros yr un fath oherwydd bod y cynllun peilot presennol ar waith, i gefnogi darpariaeth i blant 3 oed yn yr ysgol.

## Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Bydd y cynnig hwn yn cynorthwyo'r ysgol i wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 3 oed ac yn hŷn. Bydd y cynnig hefyd yn cefnogi'r targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-2020 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol ac mae'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg'. Mae hefyd yn cefnogi'r Targedau Iaith Gymraeg sirol newydd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dros 10 mlynedd.

## Goblygiadau Ariannol - Refeniw

Caiff Ysgol adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall yn y Cyngor Sir, a hynny yn seiliedig ar nifer y disgyblion a chyfleusterau'r ysgol newydd.

## Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Swiss Valley:

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 2,
Y Prif Adeilad,
Parc Dewi Sant,
Caerfyrddin. SA31 3HB
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

## Dalgylch yr Ysgol

Bydd Ysgol Swiss Valley yn parhau i fod wedi'i lleoli ar safle presennol yr ysgol felly bydd y dalgylch dynodedig yn seiliedig ar ddalgylch presennol Ysgol Swiss Valley.

## Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Ni fydd unrhyw newidiadau yn y trefniadau presennol o ran trosglwyddo disgyblion i addysg Uwchradd.

## Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

| Enw'r Ysgol | | Ysgol Gynradd Swiss Valley | Ysgol Gynradd Llannon | Ysgol Gynradd Pum Heol | Ysgol y Felin | Ysgol Gynradd Dafen | Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn | Ysgol Gymraeg Llangennech | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | SA14 8DS | SA14 6AE | SA15 5EX | SA14 8BE | SA14 8LL | SA14 9TT | SA14 8YB | SA14 8RS |
| **Sir** | | **Sir Gaerfyrddin** | | | | | | | |
| **Ystod Oedran** | | 4-11 | 4-11 | 4-11 | 4-11 | 3-11 | 3-11 | 3-11 | 3-11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol |
| **Categori Cyfrwng Iaith (CYBLD)** | | Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Dwy Ffrwd | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020 )** | **Meithrin** | 14 | 3 | 7 | 17 | 24 | 25 | 57 | 79 |
| | **Derbyn – B.6** | 222 | 96 | 80 | 205 | 130 | 189 | 371 | 392 |
| | **Cyfanswm** | **236** | **99** | **87** | **222** | **154** | **214** | **428** | **471** |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol** | **Ionawr 2019** | 20 + 212 = **232** | 101 | 91 | 219 | 164 | 216 | 439 | 482 |
| | **Ionawr 2018** | 19 + 217 = **236** | 117 | 92 | 222 | 161 | 188 | 474 | 467 |

| Enw'r Ysgol | | Ysgol Gynradd Swiss Valley | Ysgol Gynradd Llannon | Ysgol Gynradd Pum Heol | Ysgol y Felin | Ysgol Gynradd Dafen | Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn | Ysgol Gymraeg Llangennech | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2017** | 16 + 223<br>= **239** | 116 | 95 | 226 | 163 | 206 | 211/238 | 440 |
| | **Ionawr 2016** | 22 + 216<br>= **238** | 115 | 90 | 224 | 141 | 201 | 2213/236 | 434 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Ionawr 2021** | 240 | 95 | 88 | 218 | 156 | 222 | 421 | 465 |
| | **Ionawr 2022** | 246 | 92 | 95 | 220 | 160 | 226 | 414 | 458 |
| | **Ionawr 2023** | 241 | 95 | 96 | 217 | 158 | 215 | 408 | 458 |
| | **Ionawr 2024** | 238 | 96 | 94 | 217 | 162 | 220 | 400 | 467 |
| | **Ionawr 2025** | 242 | 94 | 93 | 215 | 160 | 223 | 404 | 464 |
| **Nifer y lleoedd (yn cynnwys meithrinfa)** | | 243 | 112 | 101 | 240 | 163 | 255 | 480 | 419 |

| Enw'r Ysgol | Ysgol Gynradd Swiss Valley | Ysgol Gynradd Llannon | Ysgol Gynradd Pum Heol | Ysgol y Felin | Ysgol Gynradd Dafen | Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn | Ysgol Gymraeg Llangennech | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost fesul disgybl (2020/21)** | £3573 | £3730 | £3688 | £5125 | £3707 | £3792 | £3680 | £3357 |
| **Cyllideb yr Ysgol** | £870K | £369K | £321K | £1,338K | £550K | £781K | £1,524K | £1,504K |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn**<br><br>**DOLEN GYSWLLT** | Estyn | Estyn | Estyn | Estyn | Estyn | Estyn | (Dim Adroddiad) | Estyn |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | B | B | C | B | C | A | C | C |

## Darparwyr Meithrin Preifat (o fewn 1 filltir)

| Enw'r Feithrinfa | Y math o ddarpariaeth |
|---|---|
| Camau Tirion | Gofal Dydd Llawn |
| Meithrinfa Ddydd Brambly Hill | Gofal Dydd Llawn |
| Sarah Steadman | Gwarchodwr Plant |
| Inky Pinky | Gwarchodwr Plant |
| Swiss Valley Childminding | Gwarchodwr Plant |

## Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

### Safonau

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae sgiliau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Drwy'r ysgol gyfan, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu sgiliau llafaredd da ac yn gwrando'n dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o destunau gyda dealltwriaeth dda. Byddant yn ynganu geiriau anghyfarwydd yn dda, gan ddefnyddio strategaethau ffonig ac yn adnabod seiniau a geiriau sy'n ymwneud â gwahanol gymeriadau mewn storïau. Maent yn gallu siarad am eu hoff gymeriadau yn eu llyfrau a'u disgrifio'n hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod o lyfrau'n llwyddiannus, gyda disgyblion hŷn yn defnyddio eu sgiliau darllen uwch yn effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda at wahanol ddibenion ac mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu storïau a cherddi'n dda ac mae'r sgiliau ysgrifennu hyn yn datblygu'n dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion. Fodd bynnag, weithiau mae gorddefnyddio taflenni gwaith yn rhwystro ysgrifennu estynedig y disgyblion rhag datblygu. Drwy'r ysgol gyfan, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, bydd y disgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau ac yn ymateb i gyfarchion syml yn hyderus. Erbyn blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ymadroddion a geirfa syml yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml am eu hoff bethau a'u cas bethau ac yn rhoi rheswm syml dros eu barn. Mae llawer yn cynnal sgyrsiau syml gyda'i gilydd, gan ddefnyddio patrymau brawddegol y maent wedi'u hymarfer mewn gwersi Cymraeg.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau rhifedd ar draws y meysydd dysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu strategaethau cyfrifo effeithiol wrth fynd i'r afael â phroblemau ac yn cymhwyso sgiliau mesur, data a siâp yn dda ac yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u sgiliau rhesymu yn fedrus. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ac mae eu defnydd o'r sgiliau hyn yn datblygu'n dda drwy'r ysgol gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall sut i chwilota'n ddiogel. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio cronfeydd data'n hyderus. Mae'r arweinwyr digidol (Tîm Tec) wedi bod yn allweddol wrth godi safonau. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio strategaethau 'gwrthdro' i ddysgu ystod o weithgareddau addas i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol i ddisgyblion iau gan gynnwys trin a chodio data. Defnyddir technolegau newydd a datblygol, megis dronau, i ddatblygu sgiliau megis codio; a defnyddir clustffonau realiti rhithwir i roi profiadau i ddisgyblion o amgylcheddau na fyddent fel arall yn gallu eu profi. Mae Google Classroom wedi'i wreiddio'n llawn yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 ac mae hyn wedi datblygu gwell sgiliau cydweithredu ac annibyniaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau creadigol, sgiliau datrys problemau a sgiliau corfforol yn effeithiol yn ystod eu cyfnod yn Ysgol Swiss Valley. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o gyfleoedd megis cyngherddau, clybiau drama, nofio, cystadlaethau celf a phêl-droed merched.

Dros amser, erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni deilliannau sy'n hafal i neu'n well na'r rhai a ragwelir yn eu hasesiad sylfaenol mewn iaith (LLCE), datblygiad mathemategol (MDT) a datblygiad personol (PSD). Fodd bynnag, yn 2019, nid oedd y cynnydd mewn MDT mor gryf ac mae hyn yn rhywbeth y mae'r ysgol yn ei fonitro'n ofalus. Gwnaeth bron pob un o'r disgyblion gynnydd da mewn Saesneg, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion mwy galluog gynnydd da iawn mewn mathemateg a gwyddoniaeth, gydag ychydig yn llai yn gwneud cynnydd tebyg mewn Saesneg. Mae'r ysgol wedi cydnabod bod hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer monitro. Gwnaeth bron pob un o'r disgyblion gynnydd da yn y Gymraeg drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn ymroi'n dda i'r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd ychwanegol yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 trwy ddarpariaeth wirfoddol ychwanegol gan lywodraethwr cyswllt. Mae ychydig ddisgyblion yn defnyddio'u sgiliau Cymraeg o amgylch yr ysgol yn hyderus.

Mae'r ysgol wedi dangos dros amser fod bron pob dysgwr o fewn grwpiau penodol yn gwneud cynnydd da, o leiaf, wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae data diwedd cyfnod allweddol 2 wedi dangos bod pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd o leiaf y lefel ddisgwyliedig. Nid oes llawer o wahaniaeth dros amser rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae nifer y disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn cynyddu, sy'n ychwanegu her arall at gyd-destun yr ysgol. Mae'r disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd da iawn ac mae'r disgyblion hynny sydd â thalentau chwaraeon a chreadigol yn rhagori yn eu meysydd.

**Llesiant**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod eu bod yn gallu siarad â staff os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd arwain ffordd iach o fyw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol mewn modd trefnus a thawel. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol tuag at ei gilydd, tuag at staff a thuag at ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n gweithio'n gytûn ac sy'n canolbwyntio ar eu tasg am gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dyfalbarhau'n dda mewn gwersi ac yn dangos penderfyniad i ddysgu pethau newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dod o hyd i ffyrdd priodol o weithio drwy heriau. Mae'r disgyblion yn cymryd eu rolau arwain o ddifrif ac maent yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i gefnogi amrywiol elusennau a chyfrannu at weithgareddau yn y gymuned. Y gyfradd bresenoldeb yn 2018/19 oedd 94.9%. Y targed ar gyfer 2019-20 yw 96% ac mae'r ysgol ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn dda i ffocws parhaus yr ysgol ar wella presenoldeb ac yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Fodd bynnag, mae gwyliau yn ystod y tymor yn dal i fod yn her i bresenoldeb cyffredinol yr ysgol.

**Profiadau Dysgu ac Addysgu**

Mae ystod o brofiadau dysgu yn sicrhau bod pob disgybl yn cael ei herio ac yn cymryd rhan lawn. Mae profiadau cofiadwy a chyfleoedd cyfoethog yn hyrwyddo dysgu a llesiant o ansawdd uchel. Cedwir at egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn ac mae'r modd y caiff y cwricwlwm ei gynllunio yn cynnwys mynediad i dasgau â ffocws a darpariaeth well a pharhaus, gan gynnwys mynediad i ystod eang o brofiadau yn yr awyr agored a than do. Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol iawn. Mae'r athrawon yn creu amgylchedd dysgu pwrpasol lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn cwestiynau a rhannu syniadau. Mae'r athrawon yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol mewn gwersi ac, o ganlyniad, mae bron pob disgybl yn barchus iawn ac yn talu sylw, gan gefnogi ei gilydd yn dda wrth ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu'n dda gyda'r disgyblion ac yn darparu cyfarwyddiadau clir sy'n galluogi disgyblion i ymgymryd â'u tasgau'n hyderus. Maent yn cynllunio tasgau a gweithgareddau i ddiwallu anghenion y disgyblion yn llwyddiannus ac yn gwneud defnydd effeithiol o sesiynau llawn i werthuso dysg y disgyblion. Ceir cyfleoedd wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys cyd-destunau lleol a chenedlaethol. Mae cymryd rhan yn Campus, y Siarter Cymraeg, wedi rhoi ffocws o'r newydd i'r ysgol gyfan ac wedi helpu i sicrhau bod gan yr ysgol ethos ac amgylchedd dwyieithog parhaus. Mae'r cynorthwywyr addysgu yn cefnogi disgyblion yn dda iawn ac yn arddangos mentrau proffesiynol cryf i alluogi'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i weithio'n effeithiol.

Mae'r athrawon yn defnyddio technegau holi yn bwrpasol i helpu disgyblion i ddeall syniadau newydd ac i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig yn helpu disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i fynd i'r afael â gwendidau yn eu gwaith. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain a pherfformiad plant eraill yn datblygu'n briodol. Mae'r ysgol yn myfyrio ar effeithiolrwydd y cwricwlwm yn rheolaidd ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddatblygiadau tuag at y cwricwlwm newydd i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldebau am eu dysgu. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae'r arweinwyr yn cymryd camau buan i sicrhau bod amcanion gwersi a gwahaniaethu yn cael eu gwella er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf posibl i bob dysgwr.

**Gofal, Cymorth ac Arweiniad**

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r ystod gynhwysfawr o ddata asesu yn gymwys er mwyn nodi disgyblion a fyddai'n elwa o wahanol raglenni ymyrraeth. Mae'r asesiadau'n ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy ar draws yr ysgol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro ac yn cefnogi disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn effeithiol. Mae map darpariaeth cynhwysfawr ar waith sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ymwybyddiaeth fanwl o'r cymorth sydd ei angen ar ddisgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr. Mae'r athrawon yn cynhyrchu cynlluniau addysg unigol defnyddiol sy'n cynnwys targedau addas ar gyfer gwella. Mae'r disgyblion a'r athrawon, ynghyd â'r rhieni, yn adolygu cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y targedau unigol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

Mae'r arweinwyr a'r staff wedi datblygu gweledigaeth gyffredin a cheir strategaeth glir iawn sydd wedi gwella deilliannau i bron pob dysgwr. Mae'r arweinwyr yn dangos gallu cryf iawn i gynllunio a gweithredu newid a chynnal gwelliant yn llwyddiannus ym mron pob agwedd. Maent yn cynnwys pob aelod o staff a phartneriaid eraill yn effeithiol iawn yn y broses o newid. Mae'r hunanarfarnu yn gywir, yn gadarn, yn systematig ac wedi'i hen sefydlu. Mae'r hunanarfarnu yn effeithiol iawn wrth gyfrannu at wella safonau, dysgu ac addysgu.

Mae'r holl arweinwyr a bron yr holl staff yn effeithiol dros ben yn y modd y maent yn dadansoddi ac yn defnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a'r dystiolaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu a gwaith y disgyblion i nodi cryfderau a gosod blaenoriaethau gwella. Mae'r arweinwyr a'r staff yn canolbwyntio'n ddi-baid ar godi safonau. Mae'r targedau'n adlewyrchu'r disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad pob disgybl yn y dyfodol, a bodlonir y rhain yn gyson ym mron pob achos. Mae gan yr ysgol hanes da iawn o godi cyflawniad bron pob disgybl, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed, dros gyfnod o dair blynedd o leiaf. Mae cynllunio gwelliannau ar bob lefel yn effeithiol iawn wrth fynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf. Mae camau gweithredu, gan gynnwys defnyddio adnoddau, wedi arwain at welliant parhaus o ran deilliannau mewn dangosyddion allweddol ar gyfer bron pob disgybl, gan gynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn gyffredinol mae'n gweithredu'r rhain yn effeithiol i wella safonau ac ansawdd dysgu ac addysgu. Mae'r arweinwyr a'r staff yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion a phartneriaid eraill i wella'n sylweddol eu gallu eu hunain a gallu pobl eraill i gyflawni gwelliant. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae eu gwaith i gefnogi a herio perfformiad yr ysgol yn gryf. Fodd bynnag, byddai cynnydd pellach mewn monitro a chynllunio ar draws nifer fwy o lywodraethwyr yn cryfhau'r maes pwysig hwn. Mae gan arweinwyr a staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n dda ac maent yn arddangos safonau proffesiynol uchel. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu'r gweithlu: mae rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus iawn o ran gwella cynnydd disgyblion ac arferion yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r llywodraethwyr a'r arweinwyr yn delio â thanberfformio'n briodol.

Mae ansawdd y gwaith addysgu ar draws yr ysgol, a'i effaith ar ddysg a chynnydd bron pob un o'r disgyblion, yn gyson dda ac yn aml yn rhagorol. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff ddealltwriaeth gyffredin o nodweddion addysgu rhagorol a da ac maent yn arddangos y rhain mewn arferion ystafell ddosbarth. Mae'r prosesau i arwain, nodi, dilysu a rhannu arfer effeithiol yn sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol gyfan. Mae'r prosesau i olrhain cynnydd disgyblion, nodi anghenion a darparu cymorth yn gadarn ac yn effeithiol ym mron pob achos. Mae asesiadau athrawon yn gyson ac yn gywir.

At ei gilydd, mae Ysgol Swiss Valley yn ysgol sy'n cael ei harwain yn dda ac sydd â hanes da iawn o wella cynnydd academaidd a llesiant dysgwyr. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr uwch-arweinwyr, mae'r arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn

gryf. Mae'r gallu i arwain yn yr ysgol yn dibynnu ar ewyllys da a phrofiad sylweddol y staff. Mae angen i'r llywodraethwyr a'r awdurdod lleol fynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau cyfeiriad ac arweinyddiaeth yr ysgol yn y dyfodol.

**Effaith y Cynnig**

Bydd y newid o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 yn Ysgol Swiss Valley yn helpu i sicrhau ac o bosibl gryfhau nifer y disgyblion yn y blynyddoedd i ddod.

# Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partïon canlynol sydd â diddordeb, sef:

| | |
|---|---|
| Staff (Athrawon a Staff Atodol) | Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau Cyfagos |
| Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid | Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig |
| Cynghorwyr Sir Lleol | Estyn |
| Cynghorwyr Cymuned | Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Aelod o'r Senedd (AS) / Aelodau Rhanbarthol / Aelod Seneddol (AS) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Yr holl undebau perthnasol |
| Partneriaid AAA | Comisiynydd y Gymraeg |
| Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol |
| ERW – Ein Rhanbarth ar Waith | Dechrau'n Deg |
| | Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar / Darparwyr Preifat |
| Cymunedau am Waith + | Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Cymunedau am Waith | Y Gronfa Waddol |
| Cyfuno | Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin |

***Anfonir copïau o'r ddogfen ymgynghori at Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr ysgolion yn nalgylch cyfagos yr ysgolion sy'n destun y cynigion.***

## Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 11 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 21 Chwefror 2021.

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 20.

### Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

Arolwg Snap

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 21 Chwefror 2021.

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

### Sesiynau galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar **28 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Mrs Rhianydd Evans drwy'r cyfeiriad ebost uchod i fynegi eich diddordeb **20 Ionawr 2021**.

### Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## Adroddiad Ymgynghori

Bydd Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

## Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

### Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os derbynnir gwrthwynebiadau cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

## Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

### Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 11 Ionawr 2021 | Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. |
| 21 Chwefror 2021 | Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant. |
| 27 Ebrill 2021 | Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.<br><br>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.<br><br>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br>Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.<br><br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. |
| 8 Mehefin 2021 | Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law. |
| Gorffennaf 2021 | Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.<br><br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. |

# Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

## Ysgol Swiss Valley

**Dadansoddiad o'r Dalgylch – Data CYBLD Ionawr 2020**

Mae gan bob ysgol ardal y mae'n ei gwasanaethu, a adwaenir fel dalgylch yr ysgol. Disgwylir i bob ysgol ddarparu lle ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ei dalgylch ac mae'n ofynnol i ysgolion roi sylw i'r galw parhaus hwn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n anfon eu plant i'r ysgol leol ond mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dymuno dewis ysgol wahanol.

**Disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r tu mewn i'r dalgylch/o'r tu allan i'r dalgylch**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd y data daearyddol ynghylch dosbarthiad disgyblion dalgylch Ysgol Swiss Valley yn dangos, o'r 236 o ddisgyblion oedd ar gofrestr yr ysgol, fod 108 yn byw yn y dalgylch a bod y 128 disgybl arall yn dod o'r tu allan i'r dalgylch.

**Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill.**

Ar sail data CYBLD Ionawr 2020, roedd 78 o'r disgyblion oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Swiss Valley yn mynychu ysgolion eraill.

Gan gymryd i ystyriaeth y 108 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ac sy'n mynychu Ysgol Swiss Valley, a'r 78 o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill, ceir cyfanswm o 186 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Swiss Valley.

**Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol**

Ar hyn o bryd mae Ysgol Swiss Valley yn cynnig gofal cofleidiol preifat ar y safle i ddisgyblion meithrin, yn ogystal â chlwb brecwast rhwng 7:30-8:45 a chlwb ar ôl ysgol rhwng 15:10-18:00. Darperir clwb gwyliau hefyd yn ystod gwyliau'r ysgol.

**Effaith ar y Gymuned**

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y cynnig yn cynyddu'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3 oed yn ardal Ysgol Swiss Valley; gan gyfrannu at ddull addysg a gofal blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru o ran creu darpariaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y plentyn o fewn y blynyddoedd cynnar.

# Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Ysgol Swiss Valley

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

**Safonau***

Mae Ysgol Swiss Valley wedi'i chategoreiddio fel ysgol Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff disgyblion eu hasesu ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn seiliedig ar ddata 2019, roedd 100% o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf Lefel 4 mewn Cymraeg Ail Iaith ac roedd 44.8% wedi cyflawni o leiaf Lefel 5.

**Gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg**

Ar hyn o bryd nid oes cyfleoedd ychwanegol ar ôl ysgol ar gyfer dysgu Cymraeg.

*(* Ni chynhaliwyd unrhyw Asesiadau Athrawon Cenedlaethol yn 2020 oherwydd effaith barhaus yr achosion o Goronafeirws. Am y rheswm hwn, defnyddiwyd asesiadau 2019.)*

# Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**Asesu Effaith**

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisïau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

**Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb**
Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisïau a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau
Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

**Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisïau, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

**<u>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol</u>**

Y rheolwr gwasanaeth/rheolwr arweiniol yn nodi'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn neu newid polisi.

↓

Cynnal asesiad cychwynnol neu asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gweler atodiad 1 ac, os yw'n ofynnol, ewch ymlaen i gwblhau atodiad 2

↓ ↓

<u>Polisi Adnoddau Dynol newydd neu newid polisi Adnoddau Dynol</u>
Rhannu'r Asesiad a'r polisi drafft â'r tîm Adnoddau Dynol strategol gan ofyn am eu sylwadau.

<u>Newid trefniadaeth/ailstrwythuro</u>
Rhoi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r newidiadau a gynigir, gerbron y panel adolygu newid a gofyn am

↓ ↑

Eu rhoi'r i'r Tîm Polisi a Phartneriaeth i'w cymeradwyo (cydraddoldeb@sirgar.gov.uk)

↓ ↑

Clustnodi newidiadau/rhagor o waith i'w gwblhau neu gyfeirio'r mater at y

**Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb    Atodiad 1**

| | | |
|---|---|---|
| **Adran:** Addysg a Phlant | **Cwblhawyd gan (arweinydd):** Sara Griffiths | **Dyddiad yr asesiad cychwynnol:** Chwefror 2020<br>**Dyddiadau adolygu:** Chwefror 2021 |
| **Y maes a asesir:** ***(h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)*** | Y cynnig hwn yw newid ystod oedran Ysgol Gynradd Swiss Valley o 4-11 i 3-11 trwy broses statudol. | |
| **Ydy'r swyddogaeth/polisi, gweithdrefn, arfer neu benderfyniad dan sylw yn bodoli'n barod neu a yw'n un newydd?** | Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg | |
| **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)** | | |
| • Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>• Y Rhaglen Moderneiddio Addysg<br>• Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018<br>• Data CYBLD 2020<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | |

| | |
|---|---|
| **1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddibenion y swyddogaeth/polisi, arfer, gweithdrefn neu benderfyniad arfaethedig a phwy fydd yn cael budd ohonynt.** | Nod y cynllun yw darparu darpariaeth feithrin ran-amser i ddisgyblion a staff yn Ysgol Gynradd Swiss Valley drwy newid yn gyfreithiol yr ystod oedran y caiff disgyblion eu derbyn o 4-11 i 3-11. Mae'r awdurdod yn ceisio safoni'r ddarpariaeth feithrin yn ardal Llanelli. Bydd hyn yn sicrhau bod disgyblion meithrin yn pontio'n ddi-dor i'r ysgol gynradd. |

| Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:-<br>**(1)** dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon;<br>**(2)** hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau ; a<br>**(3)** meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau<br>(gweler y nodiadau esboniadol) | | 2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchodedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl. | 3. Clustnodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchodedig? | | 4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Risgiau** | **Effeithiau cadarnhaol** | |
| **Nodweddion gwarchodedig** | **Oedran** | Effaith fach | | Bydd y cynnig yn darparu mynediad i ddisgyblion oedran meithrin i ddarpariaeth feithrin yn adeilad yr ysgol gan sicrhau pontio di-dor o addysg ran-amser i addysg amser llawn. | |
| | **Anabledd** | Effaith fach | | Bydd disgyblion meithrin ag | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu derbyn a'u cefnogi yn unol â hynny yn ôl yr angen. | |
| | **Ailbennu rhywedd** | Dim | Niwtral | | |
| | **Hil** | Dim | Niwtral | | |
| | **Crefydd/Cred** | Dim | Niwtral | | |
| | **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | Niwtral | | |
| | **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Niwtral | | |
| | **Rhyw** | Dim | Niwtral | | |
| | **Yr Iaith Gymraeg** | Effaith fach | | Bydd categori iaith yr ysgol yn aros yr un fath (SC) gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy'r ysgol gyfan. | |
| | **Unrhyw faes arall** | Dim | Niwtral | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchodedig priodol?** | **DO** [x] **NADDO** ☐ Bydd y Swyddog Prosiect yn cysylltu â Phennaeth, Staff, Rhieni disgyblion Ysgol Swiss Valley yn ogystal â meithrinfeydd preifat a gwarchodwyr plant yn ardal Swiss Valley, gyda golwg ar y cynnig. Ymgynghorir yn llawn â'r holl randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. | | |
| **6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai?** Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses statudol. | | | |
| **7. Caffael**<br>**Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?** Ddim yn berthnasol<br>**Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.** | | | |
| **8. Adnoddau Dynol**<br>**Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth?** Gan y bydd cynnydd yn yr ystod oedran, mae'n bosibl y bydd angen staff ychwanegol. Rhoddir sylw i hyn wrth i'r cynllun symud yn ei flaen, ac ymgynghorir yn llawn â'r adran Adnoddau Dynol. | | | |
| **9. Ar sail y wybodaeth yn adran 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad?** (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2) | **DYLAI** ☐ | **NA** [x] **DDYLAI** | |
| **Cymeradwywyd gan:**<br>Pennaeth y Gwasanaeth | Simon Davies | **Dyddiad: Hydref** 2020 | |